

# Defnyddio £44m o arian nas defnyddiwyd i gefnogi Gweithredu Cymunedol

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad ar sut y dylid gwario £44m o gyfranddaliadau a phensiynau nas defnyddiwyd yng Nghymru. Mae'r penderfyniadau ynghylch sut mae'r arian yn cael ei ddefnyddio wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Trwy ymateb i'r ymgynghoriad mae cyfle i chi ddylanwadu ar y ffordd mae'r arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio.

## Pa newid ydym ni am ei weld?

Mae BCT, a llawer o grwpiau a sefydliadau cymunedol eraill yn galw am ddefnyddio'r arian i greu cronfa ariannu newydd yr ydym wedi cyfeirio ati'n flaenorol fel **Cronfa Cyfoeth Cymunedol. Mae'r ymgynghoriad yn ystyried hyn fel Gweithredu Cymunedol.**

## Pam Gweithredu Cymunedol?

Byddai defnyddio'r Ddeddf Asedau Segur i gefnogi Gweithredu Cymunedol yn caniatáu **cyllid tymor hir, hyblyg gyda'r nod o gefnogi sefydliadau cymunedol.** Byddai model yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn yn rhoi sicrwydd i grwpiau a sefydliadau cymunedol gynllunio a chyflawni prosiectau yn eu hardaloedd lleol.

## Am beth mae'r ymgynghoriad?

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ynghylch sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyllid o'r Ddeddf Asedau Segur. Mae'n cynnwys pedwar opsiwn: plant a phobl ifanc, yr argyfyngau hinsawdd a natur, cynhwysiant ariannol a gweithredu cymunedol. **Mae'n annhebygol y bydd yn gallu ariannu'r pedwar opsiwn a bydd angen blaenoriaethu.**

## Sut i gymryd rhan

Ymateb i'r ymgynghoriad yw'r brif ffordd o fynegi eich barn ynglŷn â sut mae'r arian ychwanegol hwn yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru. Gallwch:

- gwblhau'r ymgynghoriad ar-lein neu drwy e-bost
- ysgrifennu llythyr

Gallwch hepgor pob cwestiwn ac eithrio'r rhai sy'n darparu gwybodaeth hanfodol am eich sefydliad neu grŵp. Mae gennych tan **28 Chwefror 2024** i ymateb.

Bydd hefyd yn help mawr os gallwch sicrhau bod eich AS yn ymwybodol o'ch sylwadau: Gallwch ysgrifennu at eich ASau (lleol a rhanbarthol) i ddweud pam yr dylid gwario'r arian ar weithredu cymunedol a sut y byddai'n helpu'ch grŵp i gyflawni hyd yn oed mwy.

Gallwch ddod o hyd i'ch ASau drwy fewnbynnu eich cod post ar [www.theyworkforyou.com](http://www.theyworkforyou.com) a gwneud yn siŵr eich bod yn dewis "Senedd/Senedd Cymru" ac "AS" wrth chwilio.

## Lle mae rhagor o wybodaeth ar gael?

Am ragor o wybodaeth neu gefnogaeth ewch i [www.bct.wales/](http://www.bct.wales/) neu e-bostiwch [eleri.williams@bct.wales](mailto:eleri.williams@bct.wales)

